



Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Cyfarwyddwyr Cyllid
Rheolwyr Hyfforddi Awdurdod Lleol
Arweinwyr Gweithlu Trawsnewid Rhanbarthol
Llywodraeth Cymru – Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad 05/12/2018

Annwyl Gydweithwyr,

**Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC)
2019/20: Cylchlythyr Grant**

A. Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn egluro'r trefniadau ar gyfer Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC) ar gyfer 2019/20. Mae'n cyhoeddi'r dyraniadau grant ar gyfer pob rhanbarth ac yn gwahodd ceisiadau grant yn seiliedig ar y saith ardal partneriaeth rhanbarthol ("partneriaethau") a sefydlwyd dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
2. Bydd y grant yn cynorthwyo gyda'r broses o gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae Pennod 4 y cod ar ddatblygu'r gweithlu yn berthnasol yn iawn gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu a darparu cynllun ar gyfer datblygu'r gweithlu i weithlu'r sector cyfan.
3. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi'r gofynion sydd angen eu bodloni er mwyn derbyn cyllid RhDGGCC.
4. Cyflogwyr sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol o hyd. Bwriad y grant RhDGGCC yw ychwanegu'n sylweddol at yr adnoddau a ddarperir gan gyflogwyr.
5. Mae'n rhaid defnyddio'r grant i gynorthwyo pob mathau o ddarparwyr gofal cymdeithasol ym mhob rhanbarth ac mae'n rhaid i'r trefniadau llywodraethu sy'n goruchwyllo'r defnydd o'r cyllid hwn gynnwys cynrychiolwyr o leoliadau amrywiol. Gofynnir am drefniadau llywodraethu clir a chyflawn fel rhan o'r broses ymgeisio.
6. Yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, bydd y cyllid sydd ar gael gan Ofal Cymdeithasol Cymru drwy RhDGGCC yn 2019/20 sy'n darparu 70% o gost y rhaglen yn £7,149,350. Bydd y cyllid grant yn cael ei ddyrannu a'i dalu i'r

awdurdod lleol arweiniol a nodir o'r rhanbarth. Cyfrifoldeb pob rhanbarth yw pennu'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, ond drwy drefniadau lleol, bydd adnoddau'n cael eu dosbarthu i bob awdurdod lleol er mwyn bodloni blaenoriaethau lleol yn ôl y gofyn. Petai ranbarth am ddefnyddio'r dull hwn, mae dadansoddiad o ddyraniadau unigol awdurdodau lleol i'w weld yn Atodiad 2.

7. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 30% o gyllid grant cyfatebol - nodir y dyraniadau yn Atodiad 2. Gall rhanbarthau addasu'r ffordd y caiff y dyraniad 30% ei ddarparu, ond 30% yw lleiafswm y cyfraniad er mwyn sicrhau'r grant.
8. Mae'n rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau i Ofal Cymdeithasol Cymru mewn fformat electronig. Bydd ffurflen ar gyfer ceisiadau'n cael ei gyflwyno law yn llaw â'r cylchlythyr hwn ac mae'r amserlen ar gyfer pob cam o'r cais a'r hawliad wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Bydd yr awdurdod lleol arweiniol yn sicrhau bod holl ofynion y cais yn cael eu bodloni ac yn cynnal cofnodion priodol at ddibenion archwilio.

B. Nodau ac Amcanion

9. Dylid defnyddio'r grant hwn i gynorthwyo gyda'r gwaith parhaus o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol Cymru a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol a nodir i gefnogi gyda'r gwaith o wella gofal a chymorth ar draws pob darparwr a sefydliad gofal cymdeithasol. Yn ogystal â gwasanaethau wedi'u rheoleiddio a'u comisiynu, mae hyn yn cynnwys cynorthwyr personol i dderbynwyr taliadau uniongyrchol, gwirfoddolwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, gofalwyr, gwasanaethau rhanbarthol fel byrddau diogelu, mabwysiadu a CAF/CASS, ymhlith eraill. Mae hyn yn ymestyn i waith gyda chyflenwad y gweithlu yn y dyfodol a mentrau perthnasol gydag ysgolion, Addysg Bellach, Addysg Uwch a chynlluniau Cyflogaeth.
10. Amcanion RhDGGCC, drwy weithio mewn partneriaeth i gefnogi staff gofal cymdeithasol ar draws pob sefydliad yn 2019/20 yw:
 - cynorthwyo gyda'r gwaith parhaus o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gan gynnwys:
 - cynorthwyo'r gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru a chynorthwyo gyda gwybodaeth/rôl unigolion cyfrifol.
 - cynorthwyo gyda hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau rheolwyr gofal cymdeithasol: gan gynnwys Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm; a'r rhai sydd angen eu cofrestru fel rheolwyr
 - cynorthwyo gyda'r gwaith parhaus o ddatblygu dulliau'n ymwneud ag ymarfer gofal a chymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau
 - cynorthwyo gyda hyfforddiant cymhwysu gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwysol yng Nghymru
 - cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau cyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, a chynorthwyo gyda'r broses o gyflwyno'r fframwaith sefydlu diwygiedig

- galluogi'r gweithlu i fodloni gofynion rheoleiddio ar gyfer cymhwyso a/neu ar gofrestru gan ddefnyddio'r canllawiau sydd ar gael yn y [Fframwaith Cymwysterau](#)
- darparu dysgu a datblygu er mwyn arfogi'r gweithlu i weithio'n effeithiol gyda gofalwyr a bodloni dyheadau'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) am ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ac arfer da mewn asesiadau anghenion gofalwyr. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu adnoddau cenedlaethol canlynol i gefnogi'r amcanion hyn:
 - modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o ofalwyr
 - pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n cynnal asesiad o anghenion gofalwyr.

C. Disgwyliadau ar gyfer y Rhanbarth

11. Gofynnir am drefniadau llywodraethu fel rhan o'r ffurflenni cais, a sefydlir partneriaethau er mwyn goruchwyllo'r grant ym mhob rhanbarth gan ddenu aelodaeth o'r canlynol:

- gwasanaethau wedi'u comisiynu
- cyflogwyr statudol, y trydydd sector a'r sector preifat
- pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth
- gofalwyr
- darparwyr hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach ac addysg uwch
- comisiynwyr
- darparwyr wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio sy'n cwmpasu gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol ar gyfer plant a gwasanaethau i deuluoedd a gwasanaethau oedolion. Dylai hyn gynnwys gofal i oedolion, gofal cartref; gofal plant a gofal maeth.

Dylid ymgysylltu â phartneriaid statudol lleol eraill gan gynnwys er enghraifft iechyd, addysg, tai, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio a sicrhau bod pawb wedi'u paratoi i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu dyletswyddau dan fframwaith cyfreithiol ac er mwyn cysoni, lle y bo'n briodol, darpariaeth a fframweithiau dysgu a datblygu. Bydd hyn yn helpu gyda'r gwaith o ystyried yr oblygiadau sydd ar y gweithlu o ganlyniad i ddatblygu dull mwy integredig o ymdrin â gofal a chymorth.

12. Rôl y Bartneriaeth yw:

- llywio a goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a darparu'r Cynllun Dysgu a Datblygu Rhanbarthol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi a data am y gweithlu
- cynllunio dysgu a datblygu ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu. Dylai hyn gynnwys (er nad yw'n gyfyngedig iddynt) gwasanaethau eraill, nad ydynt yn perthyn yn uniongyrchol i'r ôl troed rhanbarthol, y mae angen ystyried eu hanghenion o ran y gweithlu, er enghraifft, CAF/CASS a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau

- gwerthuso effaith Cynlluniau Dysgu a Datblygu Rhanbarthol ar wasanaethau a'r gweithlu.
13. Dylai partneriaethau roi ystyriaeth i allu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â "Mwy na Geiriau", y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
<http://lyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>
14. Dylai partneriaethau fabwysiadu rôl arweiniol mewn perthynas â nodi ffynonellau eraill o adnoddau gan gynnwys cyllid ar gyfer gwahanol rannau o'r sector sy'n ychwanegu adnoddau gan gynnwys cyllid ar gyfer gwahanol rannau o'r sector sy'n ychwanegu at y grant RhDGGCC e.e. cyllid ar gyfer prentisiaethau, cyfleoedd dysgu i oedolion.

D. Cyllid

15. Mae'r defnydd o'r cyllid hwn wedi'i gyfyngu i'r categorïau isod:
- hyfforddiant i helpu parhau i weithredu'n barhaus Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
 - hyfforddiant i helpu i barhau i weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
 - costau digwyddiadau a gweithgareddau dysgu a datblygu eraill, gan gynnwys costau staff newydd a chostau eraill yn ymwneud â gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hyfforddiant achrededig
 - costau secondiadau ar gyfer hyfforddiant cymhwysu gwaith cymdeithasol, gan gynnwys costau staff newydd
 - hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol - gyda phwyslais ar hyfforddiant cyn-gymhwysu, hyfforddiant cymhwysu a hyfforddiant ôl-gymhwysol gan ganolbwyntio ar ddysgu ac addysg broffesiynol barhaus yn unol â'r fframwaith DAPP
 - bodloni gofynion cofrestru ar gyfer cymwysterau neu unedau o gymwysterau ar gyfer grwpiau cofrestredig cyfredol Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r rhai a fydd yn cael eu cofrestru yn y dyfodol
 - gwelliannau i ymarfer yn gysylltiedig â rheoleiddio proffesiynol
 - costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, gan gynnwys ffioedd cyrsiau, darparu secondiad i staff ar gyfer dysgu a datblygu
 - costau staff a gyflogir i ddarparu dysgu a datblygu ac ar gyfer asesiadau'n seiliedig ar waith, gan gynnwys asesu cymwysterau a achredir
 - costau darparu cyfarpar, a lle y gellir ei gyfiawnhau, rhent y lleoliadau ar gyfer hyfforddi ac asesu cymwyseddau
 - costau helpu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gwerthusiadau dysgu a datblygu partneriaeth RhDGGCC.
16. Ar gyfer unrhyw ddysgu a datblygu a gefnogir gan grant RHDGGCC, mae'n rhaid bodloni'r holl amodau canlynol:

- rydym yn rhagweld y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu am ddim yn bennaf i bob sefydliad partner gofal cymdeithasol (mae hyn yn berthnasol i elfennau darparu hyfforddiant yn unig, mae costau gweinyddol, costau peidio â mynychu neu gostau lletygarwch yn parhau'n berthnasol). Gellir codi ffioedd i helpu i fuddsoddi mewn hyfforddiant ar y cyd ag asiantaethau eraill
- dim ond 10% o'r grant RhDGGCC y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda hyfforddiant a ddefnyddir er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn unig, gan mai cyfrifoldeb y cyflogwr yw'r rhain. Nid yw hyn yn cynnwys hyfforddiant a gwblheir fel rhan o hyfforddiant ehangach (h.y. fel rhan o gymhwyster). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys y canlynol:
 - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
 - Rheoliadau Codi a Chario 1992
 - Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
 - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR)
 - Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998
 - Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
 - Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
 - Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974
 - Deddf Diogelwch Bwyd 1990.
- ni ellir defnyddio cyllid grant i dalu am lefydd unigol ar unrhyw gyrsiau lle mae'r rhain eisoes wedi cael cymhorthdal gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n rhaid i bartneriaethau sicrhau nad oes cyllido dwbl ar ffioedd unrhyw gwrs
- ni ddylid defnyddio cyllid grant i gefnogi gwasanaethau corfforaethol a rennir naill ai o fewn un awdurdod lleol neu ar draws grŵp o awdurdodau lleol oni bai bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl a dim ond at ddibenion RhDGGCC
- mae'n rhaid defnyddio cyfran fwyaf y grant ar gyfer dysgu a datblygu a chymwysterau (gan gynnwys costau staff i ddarparu hyfforddiant) yn hytrach nag ar staffio, rheoli a gweinyddu rhaglenni. Nid ydym yn disgwyl i gyllid ar gyfer staffio rhaglenni cynyddu (ac eithrio unrhyw ddyfarniadau ar gyfer costau byw). Gall partneriaethau gyflogi staff ar y cyd pan fo hyn yn ddull effeithiol o ddatblygu'r sector gofal cymdeithasol ac o ran costau.

17. Fel rhan o waith monitro diwedd blwyddyn, disgwylir i ranbarthau adrodd ar unrhyw amrywiadau sylweddol rhwng gwariant wedi'i gynllunio a gwariant gwirioneddol.

18. Bydd yr arian a roddwyd yn flaenorol o dan y Grant Hwyluso Rhanbarthol yn cael ei gynnwys yn y grant hwn bellach ac ni dd disgwylir iddo ddenu 30% o arian

cyfatebol, ond ni ellir ei ddefnyddio ond ar gyfer y blaenoriaethau a ddefnyddir yn adran 19.

19. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer yr elfen hon o'r grant fel a ganlyn:

- parhau â'r elfen graidd sy'n cefnogi ymgysylltiad sector cyfan o fewn y rhanbarthau
- cyflwyno'r fforymau rheolwyr cofrestredig (o leiaf 1 mewn pob rhanbarth bob blwyddyn)
- datblygu swyddogaeth cysylltydd gyrfa gofal rhanbarthol i gefnogi'r ymgyrch denu, recriwtio a chadw canolog dros gyfnod y rhaglen waith hon. Mae cylch gwaith y swyddogaeth hon wedi'i gynnwys yn Atodiad 3. Mae'n ofynnol i bob rhanbarth enwi unigolyn penodol sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.

20. Dangosir y cyllid ar gyfer pob un o'r tair blaenoriaeth hyn yn Atodiad 4.

21. Bydd angen cyflwyno adroddiadau yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn unol â'r trefniadau adrodd ar gyfer agweddau eraill ar y grant hwn drwy'r cynllun gweithredu treigl.

E. Llywodraethu

22. Gall RhDGGCC, mewn rhai amgylchiadau, fod yn destun Rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno canllawiau ar y ffordd y mae'r rheolau'n berthnasol i RhDGGCC.

23. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 25 Chwefror 2019. Sicrhewch fod y swyddogion perthnasol yn llofnodi'r holl ddogfennau fel y nodir ar y ffurflenni ardystio.

24. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r cylchlythyr hwn ac o ran pa mor berthnasol yw'r cynlluniau. Dylid gwneud ceisiadau gan ddefnyddio'r templed a ddarperir ar gyfer ceisiadau.

25. Byddwn yn disgwyl i bartneriaethau rhanbarthol fonitro'r grant hwn yn ffurfiol ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd templedi'n cael eu darparu ar gyfer yr adroddiadau hyn a dylai'r adroddiadau gofnodi cynnydd yn erbyn llwyddiannau a gynlluniwyd, rhesymau dros unrhyw wro oddi wrth gynlluniau, camau cywiro sydd wedi'u sefydlu a chadarnhad o gynlluniau gwario ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

26. Byddwn yn darparu ffurflenni archwilio er mwyn dilysu cofnodion o wariant RhDGGCC.

27. Mae'n ofynnol i bartneriaethau rhanbarthol werthuso defnydd ac effeithiolrwydd y grant a'r bartneriaeth. Mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir a bydd angen cydweithio â'r rhanbarth er mwyn dangos effaith y rhaglen grant ledled Cymru.

28. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau'r canlynol:

- mae cyllid RhDGGCC yn cael ei ddefnyddio ar gyfer holl weithlu'r sector gofal cymdeithasol ac mae llefydd hyfforddi priodol, cyllid a chyfleoedd i ennill cymwysterau ar gael i ym mhob ardal yn y sector
- mae ceisiadau'n cydymffurfio â'r canllawiau hyn
- darperir tystiolaeth o gydymffurfio â'r fframwaith cymwysterau
- mae'r holl ddogfennau gofynnol yn cael eu cymeradwyo a'u cyflwyno erbyn y dyddiadau cau perthnasol.

Bydd rhan o'r cyllid neu'r cyfan ohono yn cael ei gadw'n ôl os yw Partneriaeth yn gwneud y canlynol:

- yn methu â chydymffurfio â'r cylchlythyr hwn
- yn methu ag anfon eu ffurflenni cais neu eu ffurflenni monitro erbyn y dyddiad cau
- yn methu â chydymffurfio â'r angen i roi sylw dyledus drwy archwilio gwariant
- yn methu â dychwelyd y dogfennau gwerthuso ar effaith ei gynlluniau'n a'r defnydd o gyllid (mewn geiriau eraill, canlyniadau ac allbynnau) yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y cylchlythyr hwn.

29. Bydd y ffurflenni hawlio grantiau'n cael eu cyflwyno law yn llaw â'r llythyr yn cynnig grant. Dyrennir grant unigol mewn dau randal mewn ôl-daliadau.

30. Dylid dychwelyd hawliadau ar gyfer chwe mis cyntaf y grant ddim hwyrach na 30 Medi 2019 a dylid dychwelyd hawliadau ar gyfer yr hyn sy'n weddill ddim hwyrach na 10 Chwefror 2020. Mae dyraniadau grant ar gyfer y flwyddyn ariannol benodedig yn unig ac ni ellir eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ganlynol. Mae Atodiad 1 yn nodi dyddiadau allweddol ar gyfer grant RhDGGCC 2019/20.

F. Ymholiadau

Cysylltwch â SCWDP@gofalcymdeithasol.cymru gydag unrhyw ymholiadau.

Yn gywir,



Sue Evans
Prif Weithredwr

Atodiad 1: Amserlen RhDGGCC 2019/20

Mae'r amserlen isod yn seiliedig ar fersiwn derfynol y cylchlythyr sy'n cael ei ddsbarthu ar 05/12/2018

Gweithredu	Terfyn amser
Ceisiadau a chynlluniau RhDGGCC i Gofal Cymdeithasol Cymru	25/02/2019
Llythyrau Dyfarnu Grant i Gyfarwyddwyr Enwebedig Gwasanaethau Cymdeithasol a ffurflenni hawlio i Gyfarwyddwyr Cyllid Enwebedig	18/03/2019 (yn dilyn cadarnhad o'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru)
Llythyrau Dyfarnu Grantiau wedi'u llofnodi i Gofal Cymdeithasol Cymru	08/04/2019
Hawliadau chwe mis cyntaf a chynlluniau wedi'u diweddarau	30/09/2019
Adroddiad monitro canol blwyddyn i Gofal Cymdeithasol Cymru	18/11/2019
Hawliad grant terfynol i Gofal Cymdeithasol Cymru	10/02/2020
Adroddiad diwedd blwyddyn i Gofal Cymdeithasol Cymru	22/06/2020
Tystysgrif Archwilio i'r Archwilydd a chopi i Gofal Cymdeithasol Cymru	30/09/2020
Tystysgrifau Archwiliedig i Gofal Cymdeithasol Cymru	06/01/2021

Atodiad 2

Dyraniad RhDGGCC 2019-20

Cyfanswm Grant RhDGGCC (yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru) -
£7,149,350

Rhanbarth ac Awdurdod Lleol	Cyfraniad Gofal Cymdeithasol Cymru	Cyfraniad Awdurdod Lleol	Cyfanswm Gwariant RhDGGCC Awdurdodau Lleol	Grant Hwyluso Rhanbarthol
	£	£	£	£
Dyraniad y Gogledd	1,601,089	686,181	2,287,270	57,555
Ynys Môn	176,058	75,453	251,511	
Gwynedd	274,830	117,784	392,614	
Conwy	282,998	121,285	404,283	
Sir Ddinbych	245,947	105,406	351,353	
Sir y Fflint	312,069	133,744	445,813	
Wrecsam	309,187	132,509	441,696	
Dyraniad y Canolbarth (Powys)	288,854	123,795	412,649	32,574
Dyraniad y Gorllewin	873,971	374,559	1,248,530	43,883
Ceredigion	176,803	75,773	252,576	
Sir Benfro	279,793	119,911	399,704	
Sir Gaerfyrddin	417,375	178,875	596,250	
Dyraniad Bae'r Gorllewin	1,214,528	520,512	1,735,040	45,037
Abertawe	538,894	230,955	769,849	
Castell-nedd Port Talbot	353,848	151,649	505,497	
Dyraniad Caerdydd a'r Fro	1,029,831	441,356	1,471,187	48,036
Caerdydd	756,670	324,287	1,080,957	
Bro Morgannwg	273,161	117,069	390,230	
Dyraniad Cwm Taf	729,762	312,755	1,042,517	47,767
Rhondda Cynon Taf	555,613	238,120	793,733	
Merthyr Tudful	174,149	74,635	248,784	
Pen-y-Bont ar Ogwr	321,786	137,908	459,694	
Dyraniad Gwent Fwyaf	1,411,315	604,849	2,016,164	54,148
Caerffili	420,269	180,115	600,384	
Blaenau Gwent	200,876	86,090	286,966	
Torfaen	238,316	102,135	340,451	
Sir Fynwy	191,789	82,195	273,984	
Casnewydd	360,065	154,314	514,379	
Cyfanswm Cymru	7,149,350	3,064,007	10,213,357	329,000

Atodiad 3

Swyddogaeth Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol

Swyddogaeth:

- Darparu pwynt cyswllt rhanbarthol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno ymgyrch denu, recriwtio a chadw cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yn effeithiol
- Darparu adnodd o fewn y rhanbarth i hyrwyddo gyrfaoedd yn barhaus ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Rhanbarthol/Lleol:

- Sefydlu a chynnal cysylltiadau ag ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch i hyrwyddo'n barhaus gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau â Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfan Byd Gwaith ac ati i hyrwyddo'n barhaus gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Cyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo gwybodaeth am yrfaedd yn unol â'r ymgyrch genedlaethol a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y rhanbarth
- Nodi cyfleoedd mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau gyrfa a chytuno a ddylid eu mynychu
- Cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd lleoliadau ystyrlon i geiswyr gwaith a dysgwyr
- Mapio arferion recriwtio yn y rhanbarth gan gynnwys dulliau hysbysebu, dulliau recriwtio ac ati
- Mapio mentrau cymorth cyflogaeth yn y rhanbarth a darparu cysylltiadau â llwybrau ar gyfer gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau *Gofal yn Galw* i gynorthwyo arferion recriwtio effeithiol
- Sefydlu mecanweithiau i gyrchu neu ddarparu sgiliau chwilio am swydd megis ysgrifennu CV, cais am swydd a thechnegau cyfweliad

Cenedlaethol:

- Cyfrannu at ddatblygu a chynnal ymgyrch denu, recriwtio a chadw cenedlaethol a'i gwefan
- Gweithredu fel y cyswllt rhanbarthol ar gyfer ymholiadau o wefan yr ymgyrch genedlaethol
- Darparu adroddiadau hanner blwyddyn a blynyddol ar lefelau gweithgarwch o fewn y rhanbarth

- Cyfrannu fel aelod o rwydwaith cenedlaethol o Gysylltau Gyrfa Gofal Rhanbarthol a hwylusir gan Ofal Cymdeithasol Cymru
- Nodi a rhannu arferion denu, recriwtio a chadw da sy'n digwydd ar lefel ranbarthol
- Cynorthwyo i fesur a gwerthuso effaith a llwyddiant yr ymgyrch genedlaethol ac yn enwedig yn eu rhanbarth
- Nodi a chyfeirio ar lysgenhadon gofal posibl
- Cyfrannu at ddatblygu adnoddau a deunyddiau i gefnogi mentrau denu, recriwtio a chadw cenedlaethol
- Cyfrannu at gyflwyno digwyddiadau gyrfaoedd cenedlaethol e.e. Sgiliau Cymru

Atodiad 4

Ddyraniad Grant Hwyluso Rhanbarthol 2019-20

Rhanbarth	Cyllid Craidd	Fforwm Rheolwyr Cofrestiedig	Swyddogaeth Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol	Cyfanswm
	£	£	£	£
Dyraniad Gogledd Cymru	£30,555	£2,000	£25,000	£57,555
Dyraniad Canolbarth Cymru (Powys)	£5,574	£2,000	£25,000	£32,574
Dyraniad Gorllewin Cymru	£16,883	£2,000	£25,000	£43,883
Dyraniad Bae'r Gorllewin	£18,037	£2,000	£25,000	£45,037
Dyraniad Caerdydd a'r Fro	£21,036	£2,000	£25,000	£48,036
Dyraniad Cwm Taf	£20,767	£2,000	£25,000	£47,767
Dyraniad Gwent Fwyaf	£27,148	£2,000	£25,000	£54,148